WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Blwyddyn archwilio: 2015-16

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 711A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Anne Beegan, Alison Butler, John Herniman a Dave Thomas.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwiliad o gyfrifon 8

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16 er, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio ac wedi cyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 12

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cyllidebau a chynlluniau arbedion ac adrodd arnynt, ond mae'r pwysau ariannol a'r diffyg cynlluniedig yn y flwyddyn gyfredol gymaint fel nad yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy a'i fod yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17 12

Mae'r Bwrdd wedi cyfleu ei ofynion sicrwydd ac mae'n effeithiol ar y cyfan ond mae materion a gododd yn ystod y flwyddyn wedi peri rhai risgiau llywodraethu, mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer craffu ar y gwaith o gyflawni'r cynllun ac mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd 14

Er bod fy archwiliad o berfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae nifer o gyfleoedd gwella yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol 15

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

Atodiad 2 – ffi archwilio 20

Atodiad 3 – y prif risgiau a materion archwilio 21

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor perthnasol. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r tîm Gweithredol. Fe'i cyflwynir i'r Bwrdd ar 30 Mawrth 2017. Fel rhan o weithdrefnau arferol y Bwrdd Iechyd, cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o bapurau'r Bwrdd. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

### Adran 1: archwiliad o gyfrifon

6 Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd er, wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Mae a wnelo'r rhain â gwella arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol ac ansawdd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Rwyf hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag amrywiad i gontract, penderfyniad a wnaed i ddyfarnu contract ymgynghoriaeth a thaliad a wnaed i aelod o staff.

7 Yn ogystal, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd lleol yn erbyn y dyletswyddau hyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

8 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fodloni ei ddyraniad adnoddau ar ddiwedd 2015-16. Manylaf ar y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

9 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig sydd wedi ystyried trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r materion gwella a nodwyd y llynedd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cyllidebau a chynlluniau arbedion ac adrodd arnynt, ond mae'r pwysau ariannol a'r diffyg cynlluniedig yn y flwyddyn gyfredol gymaint fel nad yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy a'i fod yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17

10 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- roedd angen llunio nifer o iteriadau o gynllun 2016-17 mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf hyn roedd rhai cynlluniau lleihau costau heb eu hategu ac nid yw cynlluniau tymor hwy yn dangos sefyllfa gynaliadwy;
- ar ôl bodloni'r dyraniad adnoddau ariannol ar gyfer 2015-16, mae perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn gyfredol gryn dipyn yn is na'r hyn a nodir yn y cynllun, nid yw cynlluniau lleihau costau wedi'u cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi na fydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17;
- mae fframwaith ar waith i sicrhau rheolaeth a stiwardiaeth ariannol briodol, ond mae rhai meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth y mae angen i reolwyr gymryd camau mewn perthynas â hwy; a
- mae trefniadau adrodd ariannol yn rhoi gwybodaeth eithaf cadarn wrth wneud penderfyniadau bwrdd ac yn cefnogi camau cywirol lle bo angen.

**Mae'r Bwrdd wedi cyfleu ei ofynion sicrwydd ac mae'n effeithiol ar y cyfan ond mae materion a gododd yn ystod y flwyddyn wedi peri rhai risgiau llywodraethu, mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer craffu ar y gwaith o gyflawni'r cynllun ac mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd**

11 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd ac mae'r gwaith y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei wneud i graffu ar y broses o gyflawni'r cynllun yn dameidiog ac, er bod rhaglen rheoli newid uchelgeisiol ar waith, prin yw'r adnoddau i weithredu'r newid sydd ei angen;
- mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer o faterion a nodwyd yn ystod y flwyddyn wedi peri rhai risgiau sylweddol i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn; a
- bu'r Bwrdd Iechyd yn araf i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae angen gwella ei drefniadau ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n gwaith archwilio arall.

**Er bod fy archwiliad o berfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae nifer o gyfleoedd gwella yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol**

12 Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiadau archwilio perfformiad fel a ganlyn:

- mae partneriaid yn cydweithio'n dda i reoli achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, tra'n cyflawni eu cynlluniau ar gyfer model systemau cyfan;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r modd y rheolir yr ystadau, ond byddai'n elwa o gyflwyno cynllun strategol i lywio gweithgareddau;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ond ychydig o'n hargymhellion cenedlaethol a lleol sydd wedi'u gweithredu'n llawn; ac
- nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro pob un o'n hargymhellion blaenorol yn effeithiol. Fodd bynnag, lle mae adroddiadau diweddaru wedi'u darparu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gweithredu ar fy argymhellion ar theatrau llawdriniaethau ond mae llawer yn dal heb eu gweithredu.

13 Rydym yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

14 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn ar gyfer 2016 i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr 2016 a mis Rhagfyr 2016.

15 Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a. archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b. bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c. bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

16 Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ardystio hawliau a ffurflenni.

17 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

18 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: archwiliad o gyfrifon; ac
- Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

19 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016.

20 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r prif risgiau a materion archwilio a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2016 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

# Adran 1: archwiliad o gyfrifon

21 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

22 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.

23 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 y Bwrdd Iechyd, er wrth wneud hynny tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi gosod adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ond mae lle i wella mewn rhai meysydd

24 Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft yn amserol cyn y terfyn amser, sef 29 Ebrill 2016. Hefyd, roedd tystiolaeth glir bod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad dadansoddol cynhwysfawr ac adroddiad yn crynhoi'r prif ddyfarniadau ac amcangyfrifon.

25 Yn unol ag ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynwyd fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ar 2 Mehefin 2016 a chrynhoir y materion allweddol a nodwyd yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Amrywiad i gontract sy'n ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol | Cymeradwyodd y Bwrdd amrywiad i gontract yn cyfateb i £0.8 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Cynhwyswyd yr amrywiad hwn i gontract yng ngwariant 2015-16 fel costau safleoedd, ond mae'n ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol ac, felly, ni ddylid bod wedi'i gynnwys yn natganiadau cyfrifyddu 2015-16. |
| Ased sy'n cael ei adeiladu y dechreuwyd ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn | Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd defnyddio 'The Plaza' yn Ysbyty Prifysgol Llandochau, ond nis trosglwyddwyd o 'Asedau sy'n cael eu Hadeiladu' i 'Adeiladau'. Felly, ni chynhaliwyd unrhyw brisiad, ni chydnabuwyd unrhyw leihad mewn gwerth/ailbrisiad ac ni chodwyd unrhyw ddibrisiant ar yr ased. Heb brisiad, ni allai'r Bwrdd Iechyd fesur yr effaith yn gywir. Rwy'n fodlon nad oedd yr effaith yn un berthnasol, gan fod y syrfewyr siartredig a oedd yn goruchwylio'r prosiect wedi nodi mai dim ond £1.9 miliwn oedd cyfanswm cost y gwaith. |
| Croniadau am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd ond nas anfonebwyd eto | Caiff croniadau archebion prynu eu cynhyrchu'n awtomatig o systemau Oracle a Fferylliaeth Ysbyty'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau y caiff cost nwyddau a gwasanaethau a gafwyd ond nas anfonebwyd gan gyflenwyr eto eu hadlewyrchu yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Amcangyfrifir bod tua £1.7 miliwn o'r croniadau archebion prynu awtomataidd yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a gafwyd cyn 31 Mawrth 2015, gyda thua £0.7 miliwn yn ymwneud â chyfnodau cyn 31 Mawrth 2014. Nid yw'r eitemau hyn wedi'u paru ag anfonebau a gafwyd. O ystyried faint o amser y maent wedi bod yn y system, mae'n debygol iawn bod y croniad wedi'i orddatgan. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod croniadau archebion prynu yn ddilys. |
| Perfformiad o ran taliadau'r sector cyhoeddus – Mesur Cydymffurfiaeth | Nododd y Bwrdd Iechyd na chyflawnodd darged Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) Llywodraeth Cymru ar gyfer talu 95% o gredydwyr nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu wasanaethau. Mae'n bosibl bod y perfformiad a nodwyd wedi'i orddatgan oherwydd y materion canlynol:<br>• Ni chaiff pob anfoneb â llaw ei dyddio â stamp gan adrannau pan ddaw i law, felly nid oedd modd cadarnhau a yw'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc 30 diwrnod' pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn yr anfoneb mewn gwirionedd yn hytrach na'r dyddiad y bydd yn cyrraedd yr Adran Cyfrifon Taladwy o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).<br>• Os bydd anghydfod ynghylch anfoneb, mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'cloc 30 diwrnod' gael ei stopio pan fydd yr anghydfod yn codi a chaiff ei ailddechrau pan gaiff yr anghydfod ei ddatrys. Fodd bynnag, ystyrir bod pob anfoneb y bu anghydfod yn ei chylch wedi'i thalu o fewn 30 diwrnod. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Darparu ar gyfer costau gofal iechyd parhaus | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael mwy na 240 o hawliadau gofal iechyd parhaus 'cam 3' nad yw'r broses asesu ar eu cyfer wedi'i chwblhau eto. Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn adolygu'r achosion hyn ar ran pob un o sefydliadau GIG Cymru. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd wrth adolygu achosion unigol. Gan nodi y gallai'r hawliadau arwain at gostau ychwanegol sylweddol i bob un o sefydliadau GIG Cymru, mae'n destun pryder nad yw'r achosion wedi'u hadolygu'n ddigonol eto i ddarparu ar gyfer asesu costau posibl.<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Bwrdd Addysgu Iechyd Powys i gyflymu'r broses o adolygu'r achosion fel y gellir nodi rhwymedigaethau posibl. |
| Adroddiadau a gynhyrchir gan gyfriflyfr Oracle | Mae porthydd y system Cyfrifon Taladwy awtomataidd yn creu cofnodion ffug yn y cyfriflyfr, sy'n cynyddu'r postiadau debyd a chredyd yn sylweddol. Er bod y rhain yn diddymu ei gilydd i roi'r swm cywir, mae angen rhoi sylw i'r mater hwn. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Codais rai pryderon ynghylch ansawdd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac awgrymais nifer o ddiwygiadau a ymgorfforwyd yn y fersiwn derfynol. Gan edrych ymlaen tuag at y flwyddyn nesaf, bydd yn ofynnol llunio'r adroddiadau atebolrwydd a pherfformiad yn gynharach. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y gwaith o lunio'r dogfennau hyn ei chynllunio a'i chydgysylltu er mwyn eu cyflwyno erbyn y terfyn amser a chaniatáu digon o amser i'r pwyllgor sicrhau ansawdd ac archwilio eu hadolygu. |

26 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – er na roddwyd unrhyw farn archwilio ar wahân, deuthum i'r casgliad fod y datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau llawn. Fodd bynnag, mae lle i wella ansawdd a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft a gyflwynir i'w ystyried fel rhan o'r archwiliad.

27 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Elusennol y Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yr Ymddiriedolwr yn ystyried fy adroddiad ar y datganiadau ariannol ym mis Ionawr 2017.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon, er bod rhai gwendidau y mae angen i reolwyr gymryd camau i fynd i'r afael â hwy

28 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, er bod rhai gwendidau y mae angen i reolwyr gymryd camau i fynd i'r afael â hwy

29 Nodais nifer o wendidau yn y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag amrywiad i gontract a thaliad a wnaed i aelodau o staff. Rwyf wedi cyflwyno adroddiadau ar wahân ar y materion hyn, gan fynegi pryderon ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth a chywirdeb, cyflawnder a pherthnasedd y wybodaeth a ddarparwyd i ategu eu penderfyniadau.

30 Rwyf wrthi'n adolygu penderfyniad a wnaed i ddyfarnu contract ymgynghoriaeth a byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau dros y misoedd nesaf.

31 Y llynedd, nodais wendidau o ran rheolaethau awdurdodi'r Bwrdd Iechyd gan nad oedd dwy eitem o wariant cyfalaf wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Eleni, mae ein profion samplu wedi nodi enghraifft arall o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillwyd:

- Lluniodd y Bwrdd Iechyd gontract yr amcangyfrifir ei fod yn werth rhwng £0.5 miiwn and £1 filiwn a hysbysodd Lywodraeth Cymru fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, bu oedi cyn cwblhau contract i Gymru gyfan ac roedd y costau gwirioneddol yr aed iddynt mewn cysylltiad â'r contract a oedd y bodoli eisoes yn fwy nag £1 filiwn ac, felly, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau ar gyfer monitro gwariant gwirioneddol yn erbyn y contract a sicrhau y ceir cymeradwyaeth Weinidogol lle y bo'n briodol.

32 Rwyf wedi cyflwyno adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd ar faterion llai pwysig eraill sydd wedi codi. Byddaf yn ystyried y cynnydd a wneir gan y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu'r argymhellion fel rhan o archwiliad y flwyddyn nesaf.

# Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

33 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o fantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed y llynedd;
- adolygiadau archwilio lleol penodol, sy'n cynnwys adolygiad o drefniadau partneriaeth ar gyfer rheoli achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ac adolygiad o'r ffordd y caiff ystadau eu rheoli; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain hynt argymhellion archwilio allanol.

34 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cyllidebau a chynlluniau arbedion ac adrodd arnynt, ond mae'r pwysau ariannol a'r diffyg cynlluniedig yn y flwyddyn gyfredol gymaint fel nad yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy a'i fod yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17

35 Mae fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Crynhoir fy nghanfyddiadau allweddol yn y paragraffau canlynol.

### Roedd angen llunio nifer o iteriadau o gynllun 2016-17 mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf hyn roedd rhai cynlluniau lleihau costau heb eu hategu ac nid yw cynlluniau tymor hwy yn dangos sefyllfa gynaliadwy

36 Bu'r broses cynllunio ariannol ar gyfer 2016-17 yn un hirfaith wrth i elfennau o'r cynllun gael eu hegluro mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Nid yw'r cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2018-19 yn mantoli cyllideb y Bwrdd Iechyd.

### Ar ôl llwyddo i fodloni'r dyraniad adnoddau ariannol ar gyfer 2015-16 ar ôl cael cyllid ychwanegol, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn gyfredol gryn dipyn yn is na'r hyn a nodir yn y cynllun, nid yw cynlluniau lleihau costau wedi'u cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi na fydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17

37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniad adnoddau blynyddol ar gyfer 2015-16 ar ôl cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

38 Mae perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn gyfredol gryn dipyn yn is na'r hyn a nodir yn y cynllun ac nid yw cynlluniau lleihau costau wedi'u cyflawni. Gyda diffyg rhagweledig o £30.9 miliwn ar gyfer 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg cyfanredol o £52.3 miliwn ar gyfer y tair blynedd a ddaw i ben 31 Mawrth 2017. Golyga hyn ei bod yn debygol na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd.

### Mae fframwaith ar waith i sicrhau rheolaeth a stiwardiaeth ariannol briodol, ond mae rhai meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth y mae angen i reolwyr gymryd camau mewn perthynas â hwy

39 Ni nododd ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, er bod rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi mewn perthynas â chroniadau hirsefydlog, gweithdrefnau ar gyfer monitro a chymeradwyo contractau a'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag amrywiad i gontract, penderfyniad i ddyfarnu contract ymgynghoriaeth a thaliad a wnaed i aelod o staff.

### Mae trefniadau adrodd ariannol yn rhoi gwybodaeth briodol wrth wneud penderfyniadau Bwrdd ac yn cefnogi camau cywirol lle bo angen

40 Mae'r adroddiadau cyllid i'r bwrdd yn darparu gwybodaeth werthfawr, ond mae'r Bwrdd yn cwrdd bob deufis sy'n golygu, weithiau, nad yw'r adroddiad cyllid misol diweddaraf sydd gael yn gyfredol mwyach. Dylai'r Pwyllgor Cyllid penodedig a sefydlwyd yn ddiweddar helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn gan y bydd yn cyfarfod yn amlach.

## Mae'r Bwrdd wedi cyfleu ei ofynion sicrwydd ac mae'n effeithiol ar y cyfan ond mae materion a gododd yn ystod y flwyddyn wedi peri rhai risgiau llywodraethu, mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer craffu ar y gwaith o gyflawni'r cynllun ac mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd

41 Mae fy ngwaith llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio ac adrodd strategol y Bwrdd Iechyd a'r dull o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni argymhellion asesiad strwythuredig blaenorol a materion ar gyfer gwella.

### Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd ac mae'r gwaith y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei wneud i graffu ar y broses o gyflawni'r cynllun yn dameidiog ac, er bod rhaglen rheoli newid uchelgeisiol ar waith, prin yw'r adnoddau i weithredu'r newid sydd ei angen

42 Gan nad oes Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd, bu'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu blynyddol. Er bod model cynllunio strategol clir ar gyfer datblygu'r cynllun sy'n cefnogi perchenogaeth leol, mae angen sicrhau bod canlyniadau tymor hwy'r Cynllun yn dryloyw. Yn fwy cyffredinol, gallai'r Bwrdd Iechyd elwa o werthuso a oes ganddo ddigon o adnoddau cynllunio.

43 Mae trefniadau ar gyfer monitro a chofnodi cynnydd o ran cyflawni'r cynllun ar lefel weithredol yn effeithiol ond mae gweithgarwch craffu ar gynnydd ar lefel y Bwrdd ac is-bwyllgorau yn dameidiog. Ategir y gwaith o gyflawni'r cynllun gan raglen rheoli newid uchelgeisiol ond mae adnoddau i weithredu'r newidiadau hyn yn broblem, sy'n creu dibyniaeth ar gymorth allanol, gyda'r risg na fydd y newidiadau yn digwydd yn ddigon cyflym ac na fyddant yn gynaliadwy

### Mae fframwaith sicrwyd y bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer o faterion a nodwyd yn ystod y flwyddyn wedi peri rhai risgiau sylweddol i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn

44 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais y canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau sicrwydd sy'n cymharu'n dda, ar y cyfan, â chyrff eraill y GIG, er bod cyfleoedd i ddiffinio ei amcanion mewn ffordd y gellir ei mesur yn hawdd; ac

- mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan.
  Fodd bynnag, mae swyddi sy'n wag ers amser maith a gallu ac adnoddau'r tîm llywodraethu corfforaethol wedi peri risgiau sylweddol, gan ohirio newidiadau arfaethedig er mwyn atgyfnerthu strwythur y pwyllgorau ymhellach ac mae nifer o faterion llywodraethu a gododd yn ystod y flwyddyn wedi codi pryderon ynghylch y broses gwneud penderfyniadau.

### Bu'r Bwrdd Iechyd yn araf i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae angen gwella ei drefniadau ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n gwaith archwilio arall

45 Bu'r Bwrdd Iechyd yn araf i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac nid oes fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu tri o'r pum argymhelliad. Mae cynnydd o ran mynd i'r afael â nifer o gyfleoedd gwella wedi bod yn fwy cadarnhaol er ei fod yn gymysg o hyd.

46 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i gyflawni ein hargymhellion a nodwyd yn asesiad strwythuredig 2015, gwneuthum hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i argymhellion fy archwiliad. Nodwyd gennyf fod angen gwella'r trefniadau olrhain presennol. Caiff adroddiad olrhain ei lunio ar gyfer y Pwyllgor Archwilio sy'n crynhoi'r cynnydd lefel uchel sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r cynlluniau gweithredu syn ymwneud â'm darnau penodol o waith, a'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff argymhellion eu gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad olrhain yn rhoi crynodeb o faint o argymhellion sydd wedi'u gweithredu a faint sy'n dal heb eu gweithredu ac nid yw'n cynnwys fy ngwaith archwilio ariannol. Mae'r adroddiad olrhain hefyd yn dibynnu ar wybodaeth yn cael ei derbyn gan y pwyllgorau perthnasol a chynlluniau gweithredu yn cael eu monitro gan y pwyllgorau hynny, rhywbeth nad yw'n digwydd bob amser.

## Er bod fy archwiliad o berfformiad wedi nodi enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae nifer o gyfleoedd gwella yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol

### Mae partneriaid yn cydweithio'n dda i reoli achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, tra'n cyflawni eu cynlluniau ar gyfer model systemau cyfan

Bydd achos o oedi wrth drosglwyddo gofal yn codi pan fydd claf mewnol yn yr ysbyty yn barod i symud i'r cam gofal nesaf, ond am un neu fwy o resymau ni all wneud hynny. Maent yn broblem gymhleth sy'n aml yn cynnwys cleifion y mae angen pecyn gofal arnynt neu y mae angen iddynt symud i leoliad gofal gwahanol megis cartref gofal ac yn gofyn am waith partneriaeth effeithiol gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

47 Nododd fy ngwaith fod strategaethau ar waith sy'n llywio gwelliannau byrdymor a rhaglenni trawsnewid hirdymor ehangach, ac mae cynlluniau i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd rhagddynt, gan gydnabod y bydd rhai trefniadau cydweithio yn cymryd amser i ymsefydlu. Dengys gweithgareddau ymrwymiad i hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn gyda defnydd da o arian Cronfeydd Gofal Canolraddol, ond nid oes unrhyw gynlluniau ar waith pe bai'r Gronfa yn dod i ben.

48 Mae consensws bod cydberthnasau rhwng partneriaid wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae strwythur llywodraethau cryf sydd wedi'i integreiddio'n dda ar waith. Mae partneriaid yn gyfrifol ar y cyd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ac mae camau cyfunol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater. Nododd fy ngwaith fod gan y bartneriaeth ddiwylliant dysgu ac mae cryn ymdrech wedi'i gwneud i nodi rhwystrau i gynnydd. Cyflwynir adroddiadau cynhwysfawr ar berfformiad yn rheolaidd ym mhob rhan o'r bartneriaeth ac maent yn dangos gwelliant cyson, er mai yn ardal y Bwrdd Iechyd y ceir y nifer fwyaf ond un o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru o hyd. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y ffordd y caiff perfformiad o ran mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal ei fesur, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod byr o amser a ganiateir i bartneriaid gytuno ar y dyddiad a'r ffaith na all y mesurau presennol gydnabod cymhlethdod achosion.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r modd y rheolir yr ystadau, ond byddai'n elwa o gyflwyno cynllun strategol i lywio gweithgareddau

49 Nododd fy ngwaith fod y dull strategol o reoli ystadau yn gwella ond nid yw hyn wedi'i gynnwys eto o fewn cynllun strategol penodol ar gyfer ystadau. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau newydd yn cymryd camau cadarnhaol i godi proffil y tîm ac atebolrwydd ac mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n gliriach. Er nad oes strategaeth ystadau gyffredinol, nodwyd gennyf fod arweinwyr gwasanaethau yn glir ynghylch blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i goladu data asedau cynhwysfawr, ond araf fu'r cynnydd oherwydd adnoddau cyfyngedig a'r angen i ailflaenoriaethu'r arian sydd ar gael. Cyflwynwyd prosesau ar gyfer blaenoriaethu a monitro gwaith cyfalaf ac maent yn cyd-fynd â strwythur y Bwrdd Gwasanaethau newydd.

50 Mae gweithgarwch rheoli perfformiad ac ymgysylltu â staff yn gwella ond nid oes gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau o gymharu â maint a chyflwr yr ystad. Nododd fy ngwaith fod anghydbwysedd rhwng gwaith atgyweirio adweithiol a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, sy'n cynnig gwerth gwael am arian, ac nid yw'n glir sut mae meincnodi a phrofion marchnad yn cael eu defnyddio i gynllunio arbedion effeithlonrwydd hirdymor. Fodd bynnag, mae'r dangosfwrdd perfformiad newydd yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r lefel isel o foddhad ymhlith staff, gwella prosesau cyfathrebu a dod o hyd i atebion cynaliadwy i recriwtio a chadw staff crefftus.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ond ychydig o'n hargymhellion cenedlaethol a lleol sydd wedi'u gweithredu'n llawn

51 Mae gan gyfran uchel o feddygon ymgynghorol gynllun swydd, ond mae angen canolbwyntio'n fwy ar ansawdd a chanlyniadau er mwyn i'r Bwrdd Iechyd wireddu manteision posibl gwaith cynllunio swyddi. Mae gan fwy na 90% o feddygon ymgynghorol gynllun swydd, ond nid yw'r adolygiad blynyddol gofynnol wedi'i gynnal ar gyfer llawer o'r cynlluniau hyn a phrin yw'r rhai sydd â thystiolaeth i ddangos bod pob parti wedi cytuno arnynt. Mae ymwybyddiaeth meddygon ymgynghorol o ganllawiau ar gynllunio swyddi yn dameidiog ac mae angen mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn fwy systematig. Nid oedd tua hanner y cyfarfodydd i adolygu cynlluniau swyddi yn cyd-fynd â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd gan mai dim ond un rheolwr a oedd yn bresennol. Nid oes digon o staff yn deall natur gwaith arfarnu a chynllunio swydd a'r gydberthynas rhyngddynt ac nid oes gan y Bwrdd yn cael sicrwydd digonol ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith cynllunio swyddi.

52 Pan gaiff ei wneud yn dda, mae gwaith cynllunio swyddi wedi galluogi rhai meddygon ymgynghorol i drafod mater datblygu gwasanaethau, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn cael y cyfle hwnnw. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau'r gwerth gorau o Weithgareddau Proffesiynol Ategol, ond nid yw llawer o gynlluniau swyddi yn cynnwys canlyniadau perthnasol o hyd. Ers 2010, mae'r Bwrdd Iechyd wedi haneru nifer y cynlluniau swyddi sydd â llwythi gwaith gormodol, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi nad yw'r contract meddyg ymgynghorol wedi cael fawr ddim effaith o ran recriwtio a chadw staff.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro pob un o'n hargymhellion blaenorol yn effeithiol. Fodd bynnag, lle mae adroddiadau diweddaru wedi'u darparu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gweithredu ar fy argymhellion ar theatrau llawdriniaethau ond mae llawer yn dal heb eu gweithredu

53 Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wneir fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio fel y trafodwyd ym mharagraff 46, rwyf wedi adolygu i ba raddau y mae cynnydd yn cael ei wneud o ran gweithredu argymhellion archwilio drwy drefniadau olrhain y Bwrdd Iechyd ei hun.

54 Mae adolygiad o'r trefniadau olrhain sy'n ymwneud â'm gwaith archwilio a gwblhawyd dros y ddwy flynedd diwethaf wedi nodi, er bod y cynllun gweithredu cychwynnol ac ymateb y rheolwyr yn cael eu hystyried gan y pwyllgor perthnasol ar adeg cwblhau'r adroddiad, nad yw diweddariadau ar gynnydd bob amser yn cael eu cyflwyno. Felly, ni fu'n bosibl i mi lunio barn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran nifer o argymhellion blaenorol, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â'm hadolygiad o theatrau llawdriniaethau a gaiff ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad sydd ar fin cael ei gynnal. Mae ymateb mwyaf diweddar y rheolwyr wedi nodi, er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud, fod sawl mater nad ymdriniwyd â hwy o hyd ac mai araf yw'r cynnydd yn achos rhai materion penodol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Cydnabyddiaeth Uwch Swyddogion | Gorffennaf 2016 |
| Amrywiad i gontract (llythyr) | Rhagfyr 2016 |
| Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cynllun Gweithredu (materion eraill) | Ionawr 2017 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal | Hydref 2016 |
| Adolygiad Dilynol o Gontract Meddygon Ymgynghorol | Tachwedd 2016 |
| Adolygiad o Ystadau | Ionawr 2017 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Ionawr 2017 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Ebrill 2016 |

Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Chwefror 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau Cleifion | Mai 2017 |
| Rheoli Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol (adroddiad diweddaru ar gynnydd) | Mai 2017 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2016 ffi archwilio arfaethedig o £420,652 (heb gynnwys TAW). Rwy'n amcangyfrif, gan fod rhywfaint o waith yn dal i fynd rhagddo, y bydd angen i mi gynyddu'r ffi. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i'r gwaith ychwanegol y mae fy nhîm wedi'i wneud mewn perthynas â'r materion llywodraethu a nodwyd yn y gwaith ar ddatganiadau ariannol 2015-16. Pan fydd fy holl waith a nodir yng Nghynllun Archwilio 2016 wedi'i gwblhau, hysbysir y Bwrdd am y ffi wirioneddol.

# Atodiad 3

## Y prif risgiau a materion archwilio

Arddangosyn 4: Y prif risgiau a materion archwilio

| Risgiau archwilio a materion | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | | |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd i sicrhau bod **cofnodion cyfrifyddu** a rheolaethau mewnol cadarn ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion. | Bydd fy nhîm archwilio yn profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion. | Adolygais gofnodion cyfrifyddu ac asesais reolaethau mewnol ac ni nodais unrhyw faterion perthnasol i'w hadrodd. |
| Mae risg y bydd **rheolwyr yn diystyru** rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Adolygais sampl o drafodion ac ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth **gydnabod refeniw** ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol ISA 240.26-27, oni chaiff y rhagdybiaeth hon ei gwrthbrofi'n benodol. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffrydiau incwm y Bwrdd Iechyd ac yn asesu p'un a oes risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll sy'n ymwneud â chydnabod refeniw. Lle ceir risgiau o'r fath, cynhelir profion penodol. | Ystyriais ffrydiau incwm y Bwrdd Iechyd. Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol. |

| Risgiau archwilio a materion | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | | |
| Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol. Dangosodd y sefyllfa ym mis 10 fod diffyg o £10.8 miliwn hyd hynny yn ystod y flwyddyn a rhagwelwyd y byddai diffyg o £11.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyflawni'r dyraniad adnoddau. | Bydd yn nhîm yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwydd wrth gofnodi.<br>Efallai y byddaf yn dewis gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio perfformiad y Bwrdd yn erbyn ei ddyletswyddau ariannol statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. | Llwydodd y Bwrdd Iechyd i fodloni ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol ar ôl cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.<br>Gosodais adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio perfformiad y Bwrdd yn erbyn ei ddyletswyddau ariannol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.<br>Adolygais sampl o amcangyfrifon ac ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd. |
| Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau mawr o ran ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad monitro mis 10 yn rhagweld diffyg arian parod o £10.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae unrhyw ddiffyg arian parod yn debygol o gynyddu amseroedd talu credydwyr ac effeithio ar berfformiad Polisi Taliadau’r Sector Cyhoeddus.<br>Mae polisi taliadau'r Sector Cyhoeddus a datgeliadau yn dal i fod yn faes risg, o ystyried pryderon y llynedd na chydymffurfiwyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac na chyflawnwyd y targed. Nodwn na fydd datgeliadau o dan Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ar gyfer 2015-16 yn cynnwys taliadau Gofal Sylfaenol yn unol â gofynion wedi'u diweddaru Llywodraeth Cymru. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r datganiadau o dan Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ac yn ystyried y pwysau arian parod ar darged gweinyddol y Bwrdd Iechyd. | Nododd y Bwrdd Iechyd na chyflawnodd y targed gweinyddol hwn yn 2015-16. Adolygais y datgeliadau o dan Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus a nodais rai pryderon ynghylch cydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru (gweler Arddangosyn 1). |

| Risgiau archwilio a materion | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol** | | |
| Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn heriol.<br>Bwriedir llunio Adroddiad Blynyddol newydd mewn tair rhan ar gyfer 2015-16 a chaiff y rhan o'r adroddiad hwnnw sy'n cynnwys yr adroddiad ar atebolrwydd ei llunio ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol ym mis Mehefin. Caiff y rhan sy'n cynnwys yr adroddiad ar berfformiad ei llunio erbyn mis Medi.<br>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer paratoi'r adroddiad ar atebolrwydd ar yr un pryd â'r datganiadau ariannol a sicrhau y caiff papurau gwaith digonol eu cyflwyno i'w harchwilio yn amserol. | Bydd fy nhîm yn gweithio'n agos gyda staff y Bwrdd Iechyd er mwyn monitro cynnydd a cheisio datrys unrhyw faterion o ran amseru cyn gynted â phosibl fel y gellir cyflawni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon. | Paratôdd y Bwrdd Iechyd yr Adroddiad ar Atebolrwydd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau cychwynnol ar gyflwyno'r adroddiad yn glir ac nid oedd unrhyw ofyniad i'r adroddiad hwn gael ei ardystio ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol. |
| Caiff y cyfrifon blynyddol eu llunio o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r gofynion hyn, gan sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau ac y caiff risgiau a materion eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy'n briodol.<br>Mae meysydd risg penodol yn cynnwys:<br>• amcangyfrifon, yn enwedig amcangyfrifon o'r ddarpariaeth gofal iechyd parhaus a gwariant gofal sylfaenol;<br>• datblygiadau cyfalaf, gyda gofynion cyfrifyddu cymhleth;<br>• trafodion sylweddol â phartïon cysylltiedig;<br>• trefniadau cymeradwyo/caffael contractau; a<br>• chywirdeb a chyflawnrwydd yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, gan gynnwys pecynnau ymadael a newidiadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd risg hyn, drwy gynnal profion penodol. | Asesais drefniadau'r Bwrdd Iechyd a chynhaliais brofion penodol priodol. Nodais rai materion i'w hadrodd mewn perthynas â'r canlynol:<br>• y ddarpariaeth ar gyfer costau gofal iechyd parhaus (gweler Arddangosyn 1);<br>• y driniaeth gyfrifyddu o asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu y dechreuwyd eu defnyddio yn ystod y flwyddyn (gweler Arddangosyn 1);<br>• amrywiadau i gontractau a chymeradwyo contractau (gweler paragraffau 29-31); a<br>• chydnabyddiaeth uwch swyddogion (gweler paragraff 29). |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.